4ydd Cyfarfod
Y Grŵp Ecosystem Coetiroedd

23 Medi 2010
Ystafell William Davies Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Penrhyncoch
10.00am tan 4.00pm

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Chris Tucker – Cadeirydd | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Chris Smith | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Jim Latham | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Nigel Ajax Lewis | WWL |
| Lynda Makepeace | LICC |
| Emma Guy | Cyngor Sir Powys |
| Reg Thorpe | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) |
| Ray Woods | Plantlife |
| Richard Jones | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Jane Holloway – Cofnodion | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Richard Crompton | Grŵp Mamaliaid Cymru |
| David Jenkins | Coed Cymru |
| Celia Thomas | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |

1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau
Trevor Dines – daeth Ray Wood yn ei le
Sarah Mellor
Jerry Langford

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhestr Coetiroedd Hynafol– dyfarnwyd y tendr – mae mwy na 60% wedi'i gwblhau eisoes – rhoddodd Jim Latham ddiweddariad byr. – Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Small – Comisiwn Coedwigaeth Cymru neu Jim Latham – Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – llawlyfr Arolwg y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, y nodweddion bioamrywiaeth sy'n cael eu cofnodi yw: pren marw, math o gynefin (eang a chynefinoedd â blaenoriaeth), asesiad o dyfiant, rhywogaethau coed, llystyfiant (rhestr a haenau), Dosbarthiad Cenedlaethol Llystyfiant, data brigbori a thynnu rhisgl ac ymyl Coetiroedd.

Pwynt Gweithredu – Y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol
Sawl safle? 1500 - % i Gymru ac amserlen – cadarnhau ac anfon e-bost at aelodau'r grŵp.
Anfon copi o'r ddisg at David Jenkins– llawlyfr yr arolwg.
Y wybodaeth ddiweddaraf – Emma Small – Bydd Arolwg Maes y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol yn arolygu 15,000 o sgwariau sampl un hectar ledled Prydain Fawr gan gynnwys 2,000 o sgwariau sampl yng Nghymru.
Mae maint y sampl wedi'i ddewis yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cyfwng hyder sy'n gysylltiedig â'r data fel a ganlyn:

- Arwynebedd/creu/colli coetir: +/- 1% ar lefel y DU a lefel y Wlad.
- Metrigau eraill: +/- 2% ar lefel y DU, +/- 4% ar lefel y Wlad.

Mae'r Rhaglen Arolwg Maes yn rhaglen dreigl 5 mlynedd a ddechreuodd eleni (ar ôl cynllun peilot y llynedd). Rhwng 2010/11 a 2014/15 caiff 3,000 o sgwariau sampl

eu harolygu bob blwyddyn ledled Prydain Fawr. Caiff samplau Cymru eu harolygu ar sail pro-rata. Cyhoeddir yr adroddiad cyntaf am ddata'r arolwg maes yn 2014/15.

Ffigurau newydd o'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – Mae Liz Howe o'r farn y gall Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac felly'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd osod targedau i Gymru ar sail y gwaelodlinau mwyaf cywir sydd gennym. Ar hyn o bryd, mae coetir yn gorchuddio 14% - Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – bydd angen cyflwyno hyn i'r Grŵp Llywio.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Tir Gofal gan Lynda Makepeace – Mae'r contract yn ei ail flwyddyn – mae wedi mynd yn dda hyd yma oherwydd tywydd da. Mae'r contract â Plantlife wedi'i ddiwygio. Mae'n ddyddiau cynnar o ran y canlyniad – mae'n gontract 3 blynedd.

Dangosyddion Coetiroedd i Gymru – y wybodaeth ddiweddaraf gan Emma Small – papur eisoes wedi'i ddosbarthu – rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol pan fydd y gwaith wedi'i ddatblygu ymhellach.

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Siarad ag Emma Small am rôl y grŵp hwn gyda dangosyddion.

Gorchmynion Cadw Coed - a yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cofnodi/defnyddio gwybodaeth am Orchmynion Cadw Coed? Os felly, pwy sy'n gwneud hynny ac at ba bwrpas?

Y wybodaeth ddiweddaraf – 24 Medi
Gorchmynion Cadw Coed – Mae Dion Griffiths yn ceisio casglu pob Gorchymyn Cadw Coed gan Awdurdodau Lleol (mae'r cyfan yn cael eu cadw mewn gwahanol setiau data). Pan fydd pob un ganddo, bydd yn rhoi'r cyfan ar un set ddata – yna mae'n gobeithio eu defnyddio mewn prosiect i helpu i ddatblygu'r rhaglen coed trefol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethu rhywogaethau gan Ray Wood – problemau'n gysylltiedig ag adnoddau – pa wybodaeth am rywogaethau ac ati y mae angen ei rhoi.

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Anfon rhestr Comisiwn Coedwigaeth Cymru o rywogaethau â blaenoriaeth at aelodau'r grŵp drwy e-bost (ychwanegu Ray Wood at y rhestr), edrych ar restr Rhywogaethau'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (gan Reg Thorpe) a gweld sut y mae'n cyd-fynd. (A allai hwn fod yn ddarn o waith i Anne MacDonald a ddatblygodd y rhestr gyntaf?) Ychwanegu colofn arall ar gyfer rhywogaethau.

Pwynt a godwyd gan Ray Woods – mae glaw asid yn broblem o hyd, mae angen edrych ar hyn.

Llythyrau newyddion Forest Research
www.forestry.gsi.gov.uk/fr/infd-5wbkxv

3. Papur Safbwynt Polisi Bioamrywiaeth Coetiroedd i Gymru – sylwadau a thrafodaeth

Mae pob papur Safbwynt Polisi a gyhoeddwyd ar gael ar:
http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-85udm5

Rhan o gyfres o 8 papur

- Coetiroedd Cymru – ehangder, eu natur a'u cymeriad
- Dŵr a Phriddoedd
- Bioamrywiaeth
- Datblygiad a Menter Economaidd
- Treftadaeth, Tirwedd a Gwerth Diwylliannol
- Buddion Addysg, Dysgu a Sgiliau Coetiroedd a Choed Cymru
- Buddion Iechyd a Lles Coetiroedd a Choed Cymru
- Cynnwys y Gymuned mewn Coetiroedd a Choed Cymru

Mae'r papur Bioamrywiaeth wedi bod at y Bwrdd Rheoli a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cenedlaethol ddydd Gwener. Gellir gwneud diwygiadau i'r papur o hyd ar ôl i'r Pwyllgor Cenedlaethol ei drafod, felly byddai Chris yn croesawu sylwadau. Anfonwch hwy yn syth ato ef.

Pwynt Gweithredu – Pawb

Anfon sylwadau at Chris am y papur Safbwynt Polisi Bioamrywiaeth.

Pwynt Gweithredu - Chris Tucker

Byddai'n ddefnyddiol cael diagram arweiniad / diagram sy'n dangos sut y mae polisïau'n cydblethu – a oes modd trefnu hyn?

Canllaw defnyddwyr – ffeithiau a ffigurau a baratowyd ar gyfer y diwydiant ac ati – un o'r geirfaon ar gyfer eleni?

4. Dangosyddion Coetiroedd i Gymru/y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhestr Coetiroedd Hynafol - Chris Tucker

Gweler y sylwadau cynharach

5. Prosiect Mapio Blaenoriaethau - Jim Latham

Anfon cyflwyniad PowerPoint – Pennu Blaenoriaethau Gofodol

Rhestr o 10 ardal hanfodol – angen gweithredu yn awr

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker/Jim Latham

Llunio rhestr a'i hanfon at aelodau'r grŵp

6. Mapio cyfleoedd plannu Glastir - Chris Tucker/Clive Thomas

Rhoddodd Clive drosolwg o lansiad strategaeth Coetiroedd i Gymru yna strategaeth Newid yn yr Hinsawdd LlCC yna adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010. Lansiodd y Gweinidog raglen plannu coed fel rhan o'r elfen a dargedir yn Glastir. Ei nod yw creu 100,000 hectar ychwanegol o goetir yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Glastir, y Cynllun newydd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru a reolir gan yr Adran Materion Gwledig.

Pwynt Gweithredu – JH/CT

Dosbarthu taflen ffeithiau a ffigurau – ei chael gan KJ – Wedi'i gwblhau

7. Grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru /Glastir - (y wybodaeth ddiweddaraf gan Patrick Green) - Chris Tucker

Y wybodaeth ddiweddaraf am Goetiroedd Gwell i Gymru

- Beth fydd yn digwydd ar ôl Coetiroedd Gwell i Gymru
  - Glastir.

Mae Patrick Green yn gweithio ar Glastir a bydd yn dod i'n cyfarfod nesaf. Bwriad y prosiect yw datblygu'r grant a systemau a rhoi cyngor i fwrdd rheoli Glastir. Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol, coedwigaeth gorchudd parhaol, coetir cymysg, coetir brodorol, plannu a rheoli wedi'u cynnwys.

Pwynt Gweithredu - CT
Cadarnhau maint gofynnol coetiroedd i fod yn rhan o'r cynllun a chadarnhau'r amserlen ar gyfer cynllun coetir Glastir– siarad â P Green.

8. Cyflawni ar gyfer rhywogaethau drwy reoli cynefinoedd - Chris Tucker

Cynigiodd CT fod y grŵp yn datblygu dulliau generig o reoli cynefinoedd coetir a all fod o fantais i'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau â blaenoriaeth ond bydd angen rhywfaint o arweiniad penodol arnom ar gyfer y rhywogaethau na fyddant yn elwa o'r dull hwn, h.y. y rhai sydd ag anghenion penodol.

Cynllun Gweithredu – Richard Crompton/Chris Tucker

Cofnodi'r ffordd arfaethedig hon ymlaen, tynnu sylw at themâu – dulliau rheoli – canllawiau – dylai RC gynorthwyo CT i fwrw ymlaen â hyn.

## Trafodaeth gyffredinol am Phytophthora ramorum

Mae cyfrifoldeb statudol ar yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera) dros gyflawni swyddogaethau polisi ac arolygu yng nghyswllt iechyd planhigion, gan gynnwys cyfrifoldeb deddfwriaethol dros P. ramorum sy'n gysylltiedig â phlanhigion a chynnyrch planhigion yn Lloegr. Fera sy'n cydlynu polisi iechyd planhigion y DU hefyd. Mae adran ymchwil Fera yn darparu cyngor gwyddonol a thechnegol, ac mae'n darparu pob math o wasanaethau diagnostig. Gweler y ddolen gyswllt isod.

http://www.fera.defra.gov.uk/showNews.cfm?id=451

Tudalennau Comisiwn Coedwigaeth Cymru am Phytophthora ramorum - gweler y ddolen gyswllt isod.

http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-85VENR

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker

A oes achos o Phytophthora ramorum wedi'i ganfod yn Sir Benfro – o ran y safle y soniodd Celia Thomas amdano?

9. Cyfathrebu â phartneriaid Lleol

Fforwm Coetiroedd Sir Benfro – caiff ei redeg gan Celia Thomas – 2 gyfarfod y flwyddyn – Maent wedi cwblhau diwrnodau Bats a TR

Ceir is-grŵp yn Abertawe

Emma Guy – cyswllt â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Mae Richard Jones yn aelod o 2 Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – Gwent a Morgannwg

Mae angen rhoi pob papur perthnasol ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – wedi eu hanfon at Emma Guy

System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth – Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Y gallu i gyfeirio at wybodaeth ar y we yn gyflym i gael mynediad ac arweiniad

Pwy yw'r bobl berthnasol ym mhob ardal?

Pwynt Gweithredu – Emma Guy

Llunio rhestr o bobl berthnasol yn ardal pob Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

10. Materion Polisi

Pwynt Gweithredu– Chris Tucker

Anfon papur sy'n diweddaru blaenoriaethau Coetiroedd at aelodau'r grŵp

– Pawb

Anfon unrhyw sylwadau at Chris cyn 21 Hydref

11. Diweddaru Cynllun Gweithredu'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Pwynt Gweithredu
Dylai Chris Tucker ei ddiweddaru ac yna ei ddosbarthu

Camau nesaf a dyddiad y cyfarfod nesaf

13 Ionawr 2011 – lleoliad i'w gadarnhau